

CYNLLUNIO ADFERIAD Y GYMRAEG

Cynog Dafis



OPOL
DIAL

*Bu Cynog Dafis yn Aelod Seneddol ac yn Aelod
Cyntnulliad. Mae'n aelod o fwrdd Dyfodol i'r laith
a chyfrannodd yn helaeth i'r gwaith o ddatblygu
syniadau'r mudiad.*

Hawlfaint © Cynog Dafis a Dyfodol i'r laith, Tachwedd 2019

Mae hawlfraint ar gynnwys y llyfryn hwn ac ni ddylid ei
atgynhyrchu trwy unrhyw ddull, onibai at bwrpas adolygu
a chyhoedduswydd, heb ganiatâd ysgrifenedig Dyfodol i'r
laith ymlaen llaw.

Argraffwyd gan Y Lolfa a chyhoeddwyd gan Dyfodol i'r laith
post@dyfodol.net
www.dyfodol.net

CYNLLUNIO ADFERIAD Y GYMRAEG

Cynog Dafis

YDOL
DYFO

Mae Dyfodol am weld symud pwyslais polisi i'r Gymraeg fel bod **Cynllunio leithyddol cynhwysfawr** yn ganolog. Dyma ymdrech i egluro rhywfaint ar beth rydyn ni'n ei feddwl wrth hyn.

1 / Y Nod

Gadewch i ni ddechrau gyda tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r uchelgais, ac yn arbennig y pwyslais ar dyfu – i bob pwrpas adfer y Gymraeg yn iaith genedlaethol – i'w ganmol. Fodd bynnag, heb i ni archwilio ystyr ymarferol y prosiect gall ailadrodd y mantra 'miliwn o siaradwyr erbyn 2050' fod yn arwynebol, yn gamarweiniol, hyd yn oed yn beryglus.

Gadewch i ni atgoffa'n hunain felly mai ystyr adfer iaith - y term technegol yw 'gwrthdroi shifft iaith' – yw creu cymunedau o siaradwyr Cymraeg. Ffenomen gymdeithasol yw iaith, nid dim ond rhyw fath o allu i chi gadw yn eich waled a'i dynnu mäs yn ôl eich cylfeustra yn awr ac yn y man. I fod yn iaith *fyw*, rhaid iddi wrth ei chymuned o siaradwyr, pobl sy'n ei siarad yn hyderus, yn brif iaith iddyn nhw. O fewn y gymuned yna mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n ddiodyfyn, otomatig.


Gall fod y gymuned yna

- yn **ddaeryddol** – ardal lle mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif helaeth
- yn **sefydliadol** – yr Eisteddfod Genedlaethol, S4C, ysgolion Cymraeg, rhai awdurdodau cyhoeddus, capeli, gwahanol fudiadau ac ati
- yn **rhwydweithiol** – siaradwyr Cymraeg sy'n wasgaredig

ymhlith mwyafrif di-Gymraeg ond yn tynnu at ei gilydd mewn gwahanol ddull a modd i wahanol bwrpasau.

Os yw miliwn o siaradwyr i olygu rhywbeth, cryfhau a thyfu'r cymunedau yna yw hynny.

Dyma ddiagram i ddarlunio'r broses



Y cylch cyfan yw'r genedl.

Y cylch canol (cylch 1) yw'r gymuned Gymraeg, ar ba ffurf bynnag – daeryddol, sefydliadol, rhwydweithiol. Mae gan y grŵp yma ei hunaniaeth ei hun o fewn yr hunaniaeth genedlaethol ac mae defnyddio Cymraeg yn naturiol yn hanfodol i'r hunaniaeth yna.

Cylch 2 yw'r rhai sydd â gwybodaeth go lew o Gymraeg ond yn anfynych eu defnydd ohoni. Ond os siaradwch chi Gymraeg ag aelodau o'r grwp yma, mae nhw'n debyg iawn o *ymateb* yn Gymraeg.

Cylch 3 yw rhai sydd â rhyw fymryn o Gymraeg ond byth braidd yn ei defnyddio.

Cylch 4 yw'r di-Gymraeg.

Mae'r saeth yn dangos beth sydd i fod i ddigwydd wrth i raglen adfer y Gymraeg gerdded rhagddi: tynfa tua'r canol yn magu momentwm dros amser. Cofier fod cadernid a thwf y cylch canol yn allweddol i'r prosiect. Bodolaeth y cylch canol ran fynychaf yw'r rheswm dros i bobl Cylch 2 a 3 ymroi i loywi'u Cymraeg a'i siarad hi'n amlach ac i bobl Cylch 4 fynd ati i'w dysgu.

Ar y llaw arall, mae twf Cylchoedd 2 a 3 yn bwysig i hyder pobl Cylch 1, a'u cyfleustra hefyd – e.e. wrth dderbyn gwasanaeth neu pan fydd angen rhywun i wneud cyfweliad am ryw bwnc neu ddigwyddiad ar Radio Cymru.

Dyna'r broses. Felly, sut mae ei rhoi ar waith? Drwy **gynllunio ieithyddol cynhwysfawr** yw'r ateb. Gadewch I ni edrych ar rai agweddau allweddol o gynllunio ieithyddol effeithiol.

2 / Lledaenu Dealltwriaeth

Mae'n hanfodol bod y genedl yn deall ystyr creu miliwn o siaradwyr, a'u bod yn cefnogi'r fenter. Mae hynny'n golygu dangos arwyddocâd y Gymraeg i fywyd y genedl, pam mae ei hadfer yn bwysig ac yn gyffrous, pam mae meddu arni yn fanteisiol, a sut y bwriedir mynd ati. Mae'n golygu esbonio sut mae dwyieithrwydd yn gweithio mewn gwirionedd, rhoi bri ar yr iaith a chodi hunan-hyder ei siaradwyr drwy ei hyrwyddo a'i marchnata ymhob dull a modd.

Cam sylfaenol felly yw rhaglen gynhwysfawr o addysgu ieithyddol a hyrwyddo'r iaith ar bob lefel, o'r bôn i'r brig.

Yn nesaf, yn wyneb pwysau aruthrol y Saesneg, iaith fyd-eang rymus a hynod ddeinamig, rhaid mynd ati'n drefnus-systemtig i greu siaradwyr Cymraeg.

3 / Creu Siaradwyr

(i) Y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r blynyddoedd cynnar yn holl-bwysig – o ran sefydlu hyfedredd ac o ran sefydlu'r arfer o ddefnyddio'r iaith.

Yn y blynyddoedd yma mae trosglwyddo'r Gymraeg drwy'r teulu a'r aelwyd yn ganolog – rhyw 7% o aelwydydd Cymru sydd ar hyn o bryd yn aelwydydd Cymraeg. Mae angen calonogi a chefnogi rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant ac mae mentrau megis cynllun Twf, a grewyd gan Gwmni Iaith Cyf. ond y mae Mudiad Meithrin yn gyfrifol am ei weithredu, yn dangos sut mae gwneud hynny.

Yn gyfochrog â hyn, mae angen Cymreigio'r system addysgofal i'r blynyddoedd cynnar – cylchoedd meithrin ond hefyd yr holl amrywiaeth o leoliadau sy'n darparu gofal i blant bach. Yn yr oed yma trochiad, nid dwyieithrwydd, yw'r egwyddor sylfaenol. Mae llawer o waith rhagorol wedi'i wneud ac wedi dwyn ffrwyth ond mae bylchau mawr, mawr iawn, yn aros.

4 / Creu Siaradwyr

(ii) Addysg Statudol, Bellach ac Uwch

Mae twf yn nifer yr ysgolion Cymraeg penodedig yn hanfodol. Mae i bob ysgol ei rhan yn y gwaith ond mae gallu ysgolion Cymraeg penodedig, drwy weithredu fel *cymunedau Cymraeg*, i gynhyrchu siaradwyr hyderus yn gwbl unigryw. Mewn ysgolion eraill, bydd rhyw gymaint o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol.

Yr hyn sydd ei angen felly yw proses o symud drwy gontinw-wm

gan amcanu at gyrraedd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, statws ysgol Gymraeg benodedig. Yn Ewscadi, gwlad y Basgiaid, ers i'r wlad honno ennill hunan-lywodraeth, gwelwyd symudiad cyson o ysgolion Sbaeneg-yn-unig i ysgolion dwyieithog ac yna i ysgolion Basgeg, nes i'r categori cyntaf grebachu allan o fodolaeth a'r trydydd categori ddenu'r mwyafrif mawr. Yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, wedi profiad diflas Llangennech a'r llwyddiant yno yn y diwedd, mae'r un broses ar waith yn y sector cynradd heb fawr o wrthwynebiad gan rieni.

Mewn cymdeithas mor symudol ag un heddiw, mae delio â hwyrddyfodiaid yn sialens a'r unig ateb boddhaol yw cyrsiau dwys mewn canolfannau iaith.

Mae gwaith mawr pellach i'w wneud mewn addysg bellach a hyfforddiant, sydd erbyn hyn yn gyfrifoldeb i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Rhaid diogelu a datblygu ymhellach waith y Coleg hwnnw mewn Addysg Uwch.

Os am dwf sylweddol mewn addysg Gymraeg, mae rhaid gwneud mwy nag ateb y galw, fel y mae Eluned Morgan wedi'i nodi. Rhaid ei ysgogi a'i arwain.

4 / Creu Siaradwyr

(iii) Rhieni a Datblygu'r Gweithlu

Un sialens fawr ym maes addysg Gymraeg nad yw'n cael ei hateb yn ddigonol ar hyn o bryd yw *datblygu gweithlu*, yn athrawon a chynorthwyddion i allu ymgymryd â'r gwaith, a hynny i safon uchel. Yr unig ffordd o wneud hyn yw rhyddhau athrawon o'u gwaith am gyfnodau estynedig, nail ai i loywi eu Cymraeg neu i ddysgu'r iaith o'r newydd.

Dyma dasg gwbl sylfaenol i bopeth arall a does dim dewis ond

buddsoddi'n drwm ynddi. Mae'r sefydliad yn Ewscadi sy'n gyfrifol am hyn, Habe, yn derbyn cyllideb flynyddol o 40 miliwn ewro ar gyfer nifer tebyg o siaradwyr. Os ydyn ni o ddifrif am filiwn o siaradwyr, rhaid i ninnau gael swm cyffelyb, gan roi'r ffocws ar ddau beth:

- Datblygu'r gweithlu, yn enwedig athrawon a chynorthwyddion
- Cefnogi rhieni y mae eu plant yn cael addysg Gymraeg, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, ac sydd am greu cartrefi Cymraeg, i ddsygu'r iaith neu i fagu hyder i'w defnyddio.

Byddai effaith buddsoddiad felly yn bentyrrol: yn creu siaradwyr newydd yn uniongyrchol fel eu bod hwythau wedyn yn cynhyrchu myrdd o siaradwyr newydd ychwanegol drwy'r sector addysgofal.

5 / Hyrwyddo Defnydd

Fel y gwyddon ni i gyd, un peth yw 'gwybod' Cymraeg a pheth arall yw ei defnyddio. Mae tuedd disgyblion ysgolion Cymraeg i siarad Saesneg yn ddihareb, ond does dim cymaint o sylw yn cael ei roi i'r Aelod Cynulliad rhugl ei Gymraeg sy'n dewis siarad Saesneg yn ein Senedd genedlaethol, er bod pob cyfleustra iddi/o i'w defnyddio, neu'n wir y tyst Cymraeg o flaen pwyllgor sy'n dewis defnyddio Saesneg. Yr hyn y mae hyn yn ei ddangos yw'r angen am newid agwedd, newid diwylliant, magu hyder, balchder a chadernid.

Mae'n amlwg felly bod rhaid mynd ati'n egniol a deallus i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Dadleuwyd uchod bod gwreiddio defnydd o'r iaith yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol. Ond nid yw hynny'n ddigon. Beth felly yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol? Dyma rai:

- Presenoldeb yr iaith yn yr amgylchedd cymdeithasol, yn weledol ac yn glywedol.
- Bod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael, yn cael ei gynnig, yn rhwydd i'r cwsmer, ar lafar yn enwedig, mewn siop a chaffi a thafarn ac ati. Cam rhwydd, rhad ond hynod effeithiol fyddai i bob siaradydd Cymraeg sy'n rhoi gwasanaeth wisgo bathodyn pwrpasol.

Ein barn ni yw y dylai Comisiynydd y Gymraeg a phroses y Safonau roi pwyslais arbennig ar y ddwy agwedd yna.

Maes arall tra phwysig yw datblygu'r Gymraeg yn y gweithle. Mae angen datblygu'r gweithlu Cymraeg ond hefyd weithleoedd Cymraeg – gan ddechrau gydag awdurdodau cyhoeddus yr ardaloedd Cymreiciaf.

Pwysicach fyth, fodd bynnag, yw amrediad ac ansawdd y gweithgareddau a'r profiadau o bob math sydd ar gael yn Gymraeg.

Yng ngwreiddiau'r gymdeithas y mae cyflawni llawer o'r gwaith yma, drwy rwydwaith o Ganolfannau Iaith yn cydweithio'n agos â'r Mentrau, yr ysgolion Cymraeg, Mudiad Meithrin a mudiadau eraill. Y nod fydd creu rhwydwaith grymus, egniol, creadigol, byrlymus sy'n meithrin hoen a hyder y gymuned Gymraeg ac yn creu tynfa tuag ati.

6 / Demograffeg

Demograffeg yw'r berthynas rhwng pobl a thiriogaeth. Mae'r pennawd yn cael ei ddefnyddio yma i gynnwys nifer o elfennau - economi, cartrefi, defnydd o dir, cynllunio gwlad a thref ac yn y blaen – mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae a wnelo'r adran yma â'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gyffredin, yn bennaf yn y gorllewin ond hefyd mewn sawl man arall. Mae hwn yn faes heriol a chymhleth.

Mae Adam Price, arweinydd Plaid Cymru, wedi cynnig y dylid cysylltu ardaloedd y gorllewin wrth ei gilydd yn rhanbarth, Arfor, er mwyn mynd i'r afael â'u gwendid economaidd ac yn arbennig y gwaedlif o bobl ifainc dawnus, llawer iawn yn siaradwyr Cymraeg, sy'n eu gadael yn flynyddol – un o'r prif ffactorau yn nirywiad y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi arddel y cysyniad. Ein barn ni yw bod angen grymuso'r weledigaeth yma a'i gwneud hi'n gynhwysyn allweddol yn y strategaeth gyffredinol i ddatblygu Cymru'n wlad lwyddiannus a hyderus. Y bwriad fyddai i ranbarth Arfor gynnig cyfleoedd gyrfaol amrywiol a chyffrous, cyfle ac anogaeth i arloesi a mentro hefyd, fel bod pobl ifainc am greu dyfodol iddynt eu hunain o fewn y rhanbarth yma, drwy aros neu ddychwelyd neu symud i mewn. Dylai'r cyfan fod ynghlwm wrth fwriad i ddiogelu a chryfhau'r gymuned a chymunedau Cymraeg.

Byddai polisi cynllunio gwlad a thref a pholisi cartrefu yn adlewyrchu anghenion ac yn atgyfnerthu'r rhanbarth a'i chymunedau yn hytrach na buddiannau datblygwyr masnachol nerthol a'u gyriant tuag at y gor-ddarparu dall a niweidiol sy'n digwydd ar hyn o bryd.

7 / Technoleg a'r Cyfryngau

Mae unrhyw un sydd â dau lygad yn ei ben yn gallu gweld mai dyma'r lle y mae diwylliant, economi ac ymwneud cymdeithasol yn cael eu trawsnewid yn ein hoes ni, a hynny ar raddfa arswydus. Mae'n greiddiol i'r prosiect.

Sut mae dod i ben â defyddio technoleg a'r cyfryngau i gryfhau'r Gymraeg ac I wasanaethu'r gymuned Gymraeg sy'n ormod o gwestiwn i'w drafod yn fanwl yma ond mae rhaid mynd ati, gydag S4C a'r BBC, y prif chwaraewyr, yn derbyn eu cyfrifoldeb nid yn unig i ddarparu cynnwys ond i hyrwyddo'r iaith yn y byd digidol

yn gyffredinol gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Cam angenrheidiol y mae Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu drosto yw sefydlu *Ofcom* Cymreig.

8 / Cynllunio Ieithyddol

Yr uchod yw'r prif feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw er mwyn rhoi adferiad y Gymraeg yn iaith genedlaethol ar waith drwy broses o gynllunio ieithyddol. Mae llawer o'r pethau y cyfeiriwyd atyn nhw wedi ac yn cael eu gwneud, yn greadigol, yn ddyfeisgar, yn rhagorol, a dyna pam y mae'r Gymraeg mewn cystal cyflwr ag yw hi. Ond dydyn nhw erioed wedi cael eu gwneud gyda'i gilydd mewn ffordd strategol.

Ystyr cynllunio ieithyddol yw bod y gweithredu'n digwydd mewn modd integredig, yn gyfannol, yn gyd-gydgysylltiol, fel bod pob agwedd yn atgyfnerthu'i gilydd. Mae eisiau parhad, dal ati, dros gyfnod estynedig o amser (30 mlynedd i ddechrau, er mwyn cyrraedd y miliwn). Mae eisiau cysondeb, ynghyd ag arloesi, arbrofi a gallu i ymateb i amgylchiadau newydd. Y cwestiwn yw, pwy sy'n mynd i wneud hyn?

9 / Strwythurau

Wrth fynd ati, mae'n bwysig bod y strwythur sefydliadol yn addas i bwrpas. Yn genedlaethol ar hyn o bryd, dau gorff sydd â'r cyfrifoldeb am arwain/gweithredu polisi i'r Gymraeg

1 Mae **Comisiynydd y Gymraeg** yn gyfrifol yn bennaf am sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg drwy system y Safonau. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfrifoldeb am hyrwyddo arni/o yn ogystal, ond hyd yma ar reoleiddio y canolbwyntiwyd.

2 **Is-adran y Gymraeg** o fewn y Llywodraeth sy'n gyfrifol am bopeth

nad yw'r Comisiynydd yn ei wneud. Mae'r Is-adran wedi'i lleoli yng nghrombil gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru ac yn atebol i bennaeth adran Addysg, sy'n atebol i Gyfarwyddydd Cyffredinol y Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd yn ei thro'n atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol. Yn wleidyddol, mae'r Is-adran yma yn atebol i weinidog y Gymraeg, sef ar hyn o bryd Eluned Morgan.

Bu peth gorgyffwrdd yn y gorffennol rhwng cyfrifoldebau'r ddau gorff ond y gobaith yw bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r dryswch.

Barn Dyfodol i'r Iaith yw bod angen diwygio'r strwythur yma.

Rydyn ni'n galw am sefydu Awdurdod neu Asiantaeth Iaith. Ein dewis ni fyddai fod hwnnw yn gorff hyd-braich i Lywodraeth Cymru – cwango i ddefnyddio'r ymadrodd hen-ffasiwn. Yr ail ddewis fyddai iddo fod yn rhan o wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, ond

- yn uchel ei statws er mwyn dylanwadu'n rymus ar holl adrannau'r Llywodraeth a chyrrff perthnasol eraill
- yn hysbys i'r cyhoedd ac yn dryloyw
- yn atebol yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Parhaol, pennaeth y Gwasanaeth Sifil, ac wrth gwrs i'r Gweinidog perthnasol

Opsiwn arall i gael Asiantaeth, allanol neu fewnol, fyddai creu Cyfarwyddiaeth y Gymraeg, yn gyfysgwydd â phedair cyfarwyddiaeth arall y Gwasanaeth Sifil.

Byddai angen i'r Asiantaeth yma feddu ar gapásiiti digonol, ac arbenigedd yn y meysydd y cyfeiriwyd atynt yn ogystal ag mewn Cymdeithaseg Iaith a Chynllunio Ieithyddol yn gyffredinol. Byddai rhaid trefnu bod elfen o barhad a sefydlogrwydd yn ei harweinyddiaeth. (Teg nodi i'r Gweinidog gyhoeddi ddechrau Awst 2019 y bydd yr Is-adran yn cael ei chryfau drwy benodi pennaeth

amser-llawn a nifer o aelodau staff eraill yn meddu ar arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol. Gwelwn hyn fel cam, ond cam yn unig, i'r cyfeiriad iawn.)

O roi'r cyfan a amlinellwyd uchod at ei gilydd, ac ychwanegu ewyllys ac arweiniad gwleidyddol diamwys ac egniol, ynghyd ag adnoddau ariannol digonol i'r dasg, mi fydden ni, fel y dywedir, 'mewn busnes'.

Dydy peth fel hyn erioed wedi cael ei wneud o'r blaen yng Nghymru. Fel y mae esiampl y Basgiaid ac eraill yn dangos, fe all weithio. Mae'n brosiect blaengar, cyffrous. Mae'n hanfodol i'r ymdrech genedlaethol.

Clywyd Dafydd Iwan un tro yn dyfynnu R Williams Parry wrth gynulleidfa ferwedig o Gymdeithas yr Iaith:

“Digymar yw fy mro/gwlad drwy'r cread crwn
Ac ni bu dwthwn fel y dwthwn hwn!”

Nawr yw'r amser i ymateb i'r her hanesyddol hon.

Atodiad

Mae llawer wedi holi pa fuddsoddiad ariannol y bydd ei angen ar gyfer rhoi cynllunio adferiad y Gymraeg ar waith.

Byddai'r rhaglen yn cynnwys sawl elfen, fel y nodwyd gennym. Rydym yn tybio mai gwaith cyntaf yr Uned newydd a gaiff ei chreu fydd mapio'r maes a nodi ble mae angen buddsoddi er mwyn cael y newid angenrheidiol.

Mae Dyfodol i'r Iaith wedi rhoi cynnig ar fwrw amcan ar y gwariant angenrheidiol. Rydyn ni'n rhagweld y bydd y gwariant hwn yn gallu dod o wahanol Adrannau'r Llywodraeth, gan gynnwys Addysg, yr Economi a Chynllunio Trefol, er enghraifft. Ni ddylid disgwyl bod yr holl arian, na'r rhan fwyaf ohono, yn dod o gyllid Adran y Gymraeg.

Dyma fraslun o'n syniadau, y gobeithiwn y byddant yn faes trafod i Gynllunwyr y Llywodraeth:

£3 MILIWN I weinyddu awdurdod iaith cryf fydd yn arwain a gweithredu polisi

£30 MILIWN I Gymraeg i Oedolion. Pam? Mae angen hyfforddi miloedd o athrawon a gweithwyr cyrff cyhoeddus. Dyma sail dysgu'r Gymraeg yn effeithiol a chreu swyddi Cymraeg.

£10 miliwn i roi hyfforddiant i arweinwyr cylchoedd meithrin ac athrawon trwy gynlluniau rhyddhau o'r gwaith

£10 miliwn i roi'r iaith i weithwyr cyrff cyhoeddus, trwy gynlluniau rhyddhau o'r gwaith

£10 miliwn i ddysgu'r iaith i rieni: mae'n rhaid cynyddu nifer y cartrefi Cymraeg

£10 MILIWN Cynlluniau i Gymreigio'r stryd fawr, fel bod naws trefi'n dod yn fwy Cymraeg, gan gynnwys gwersi Cymraeg i weinyddion ac ati

£10 MILIWN I sefydlu Canolfannau Cymraeg, ar sail cefnogaeth leol i ail-greu cymdeithasau Cymraeg

£10 MILIWN I Gymreigio Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach

£10 MILIWN I gefnogi timau chwaraeon, gweithgareddau cymdeithasol a'r byd adloniant i ddefnyddio Cymraeg

£20 MILIWN I hybu economi ardaloedd Cymraeg

£10 MILIWN I gynnal sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg.

Wel, dyna £103 miliwn yn flynyddol. Gall y flaenoriaeth newid fesul blwyddyn. Bydd arian o'r math yma'n fodd o roi hwb i'r Gymraeg ym mhob cornel o'r wlad.